**TCO – Proffil Rôl Tiwtor – Graddfa 5**

| **Tiwtor – Graddfa 5** |
|---|

| **DIBEN Y RÔL** |
|---|
| Darparu cymorth i staff academaidd wrth ddarparu cymorth addysgu a dysgu i fyfyrwyr |

| **PRIF DDYLETSWYDDAU** |
|---|
| 1. Cynorthwyo â chyflenwi addysgu o fewn fframwaith clir. |
| 2. Datblygu deunyddiau addysgu priodol, fel bo'r gofyn. |
| 3. Marcio aseiniadau |
| 4. Cynllunio eich gwaith eich hun o fewn cyfyngiadau'r cwrs a'r tîm |
| 5. Darparu adborth i fyfyrwyr ar eu cynnydd |

| **GWEITHGAREDDAU** | **ENGHREIFFTIAU O OFYNION Y RÔL** |
|---|---|
| 1 Cyfathrebu | Ymdrin â chyfathrebu rheolaidd drwy gyfryngau safonol.<br>Cyfleu gwybodaeth a syniadau i fyfyrwyr.<br>Ysgrifennu taflenni gwaith a deunyddiau cymorth dysgu sylfaenol eraill.<br>Ar adegau cyfleu gwybodaeth gymhleth, ar lafar, yn ysgrifenedig ac yn electronig. |
| 2 Gwaith Tîm a Chymhelliant | Cyfranogi'n weithredol fel aelod o dîm addysgu.<br>Mynychu a chyfrannu mewn cyfarfodydd perthnasol. |
| 3 Cyswllt a Rhwydweithio | Cysylltu â chydweithwyr a staff cymorth i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r bobl briodol yn amserol. |
| 4 Darparu Gwasanaeth | Cyflwyno deunyddiau addysgu cyfredol.<br>Dilyn cyfarwyddyd ac arweiniad staff academaidd dibynnol<br>Ar adegau efallai bydd angen datblygu deunyddiau addysgu a dull cyflenwi i ddiwallu anghenion y myfyrwyr |
| 5 Prosesau a Chanlyniadau Penderfynu | Cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar waith y tîm |
| 6 Cynllunio a Threfnu Adnoddau | Rheoli, gydag arweiniad, eich gweithgaredd addysgu eich hun.<br>Cynllunio eich gweithgaredd dydd i ddydd eich hun o fewn fframwaith y cylch gwaith a'r amserlen a gytunwyd.<br>Cydlynu eich gwaith eich hun a rheoli gwaith pobl eraill i osgoi gwrthdaro neu ddyblygu ymdrechion |
| 7 Menter a Datrys Problemau | Ymdrin â phroblemau a allai effeithio ar gyflenwi eich addysgu eich hun. |
| 8 Dadansoddi ac Ymchwil | Cynnal cofnodion myfyrwyr.<br>Cynnal chwiliadau llenyddiaeth a chronfeydd data i ddatblygu deunydd a thechnegau addysgu. |

| | |
|---|---|
| 9 Gofynion Synhwyraidd a Chorfforol | Gall gofynion synhwyraidd a chorfforol amrywio o gymharol ysgafn i lefel uchel gan ddibynnu ar y ddisgyblaeth a'r math o waith a wneir. |
| 10 Amgylchedd Gwaith | Rhaid bod yn ymwybodol o'r risgiau yn yr amgylchedd gwaith. |
| 11 Gofal Bugeiliol a Lles | Dangos ystyriaeth i bobl eraill. |
| 12 Datblygu Tîm | Cefnogi aelodau newydd o'r tîm |
| 13 Cefnogaeth Addysgu a Dysgu | Cyflwyno deunyddiau addysgu cyfredol, gan ddilyn cyfarwyddyd ac arweiniad staff academaidd yr adran. Ar adegau efallai bydd angen datblygu deunyddiau addysgu a dull cyflenwi i ddiwallu anghenion y myfyrwyr.<br>Marcio aseiniadau.<br>Asesu cynnydd myfyrwyr a darparu adborth |
| 14 Gwybodaeth a Phrofiad | Adfyfyrio ar ymarfer a datblygu eich sgiliau addysgu a dysgu eich hun.<br>Meddu ar ehangder neu ddyfnder digonol o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth a dulliau a thechnegau addysgu i weithio o fewn eich maes eich hun. |